


Llety Kosher/Kosher Accommodation

Yn ystod oes Fictoria, daeth Llandudno i'r amlwg fel cyrchfan gwyliau prysur. Denodd lawer o fusnesau newydd i'r ardal, gan gynnwys masnachwyr Iddewig. Daeth yn gyrchfan gwyliau poblogaidd i Iddewon, gan arwain at nifer sylweddol o westai a thai llety yn darparu ar gyfer cleientiaid Iddewig Uniongred trwy gynnal ceginau kosher llym.

Sefydlwyd y tŷ llety cynharaf a gofnodwyd gan Joseph Aarons yn 2 Nevill Crescent ym 1871. Hysbysebodd Joseph, deliwr mewn celfyddyd gain, yn y *Jewish Chronicle* y byddai'n agor sefydliad yn Llandudno ar gyfer tymor yr haf.

Enillodd llety kosher mewn poblogrwydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, wrth i bobl ddod i Landudno i ddianc rhag y bomio yn Lerpwl a Manceinion gerllaw, a hyd yn oed mor bell i ffwrdd â Llundain.

Y gwesty mwyaf yn y 1930au oedd Tikvah, a oedd yn eiddo i deulu Lazar. Rhoddwyd yr anrhydedd hon yn ddiweddarach i Sefton Gate yn y 1940au, gan honni mai dyma'r 'tŷ gwestai kosher llym mwyaf a mwyaf moethus yng Ngogledd Cymru', a redir gan Jack a



Y Jewish Chronicle, 11 Ebrill 1958, t. 29.
The Jewish Chronicle, 11 April 1958, p. 29.

During the Victorian era, Llandudno emerged as a bustling holiday resort. It attracted many new businesses to the area, including Jewish merchants. It also became a popular holiday destination for Jews, leading to a significant number of strictly kosher hotels and guest houses catering to an Orthodox Jewish clientele.

By 1871, Joseph Aarons had established the earliest recorded guest house at 2 Nevill Crescent. A dealer in fine art, Joseph advertised in the *Jewish Chronicle* that he would be opening an establishment in Llandudno for the summer season.

Kosher accommodation gained in popularity during the Second World War, as people came to Llandudno to escape the bombing in nearby Liverpool and Manchester, and even as far afield as London.

The largest hotel in the 1930s was Tikvah, owned by the Lazar family. This accolade was later awarded to the Sefton Gate Hotel, run by Jack and Bessie Morris. In the 1940s, it claimed to be 'The largest and most luxurious strictly kosher guest house in N. Wales'.



Y Jewish Chronicle, 01 Mehefin 1945, t. 2.
The Jewish Chronicle, 01 June 1945, p. 2.



Parch. Emanuel a Fanny Berry, tau 1942. Delwedd trwy garedigrwydd Judie Finesilver.
Rev. Emanuel and Fanny Berry, circa 1942. Image courtesy of Judie Finesilver.

Bessie Morris. Cafodd rhai gwestai eu meddiannu gan y llywodraeth i gartrefu gweithwyr rhyfel hanfodol. Digwyddodd hyn i Tikvah, gan orfodi Leah Lazar i agor tŷ gwestai newydd ar Ffordd Gogarth.

Cafodd amryw o dai gwestai olyniaeth o berchnogion. Cafodd The Laurels yn 13 Gloddaeth Crescent (Gwesty'r Tynedale heddiw) ei redeg i ddechrau gan L. Braham ym 1942, cyn cael ei drosglwyddo i Mr a Mrs A. Myers yr un flwyddyn. Symudodd y Myers ymlaen i Saxonhurst, hefyd ar y promenâd, ac erbyn 1944 roedd yn cael ei redeg gan Fanny Berry, gwraig Emanuel Berry, Parch. Synagog Llandudno.

Roedd rhedeg tai llety kosher yn ymddangos yn ffordd boblogaidd i arweinwyr crefyddol lleol ychwanegu at eu hincwm. Gallai gwesteion hefyd fod yn sicr bod eu hanghenion crefyddol yn cael eu diwallu'n fawr.

Roedd Annie Kushell, gwraig y Parch. Louis Kushell o Synagog Bae Colwyn, yn rhedeg eu tŷ gwestai kosher yn 6 Ffordd Canning ym Mae Colwyn o 1949 hyd 1961.



Y Jewish Chronicle, 08 Mawrth 1940, t. 6.
The Jewish Chronicle, 08 March 1940, p. 6.

The government requisitioned some hotels to house essential war workers. When this happened to Tikvah, Leah Lazar opened a new guest house on Gogarth Road.

Various guest houses had a succession of proprietors. The Laurels at 13 Gloddaeth Crescent (today the Tynedale Hotel) was initially run by L. Braham in 1942, before being passed on to Mr & Mrs A. Myers the same year. The Myers moved on to Saxonhurst, also on the promenade, and by 1944, Fanny Berry, the wife of Rev. Emanuel Berry of Llandudno Synagogue, was running it.

Running kosher boarding houses appeared to be a popular way for local religious leaders to supplement their income. Guests could also be assured that their religious needs were being meticulously met.

Annie Kushell, the wife of Rev. Louis Kushell of Colwyn Bay Synagogue, ran their kosher guest house at 6 Canning Rd in Colwyn Bay from 1949 until 1961.



Rydym yn ddiolchgar i ymddiriedolwyr Cronfa Marc Fitch am grant tuag at gostau'r prosiect hwn.
We are grateful to the trustees of the Marc Fitch Fund for a grant towards the costs of this project.

MARC FITCH FUND



Gyda diolch i Brifysgol Bangor am eu cymorth.
With thanks to Bangor University for their assistance.